| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y BWRDD** |
| **DYDDIAD** | **19 CHWEFROR 2008** |
| **TEITL** | **Strategaeth Ariannol – Proses Blaenoriaethau Adnoddau Bidiau Refeniw a Chyfalaf 2008/09 – 2010/11** |
| **PWRPAS** | **Cytuno'r argymhellion mewn perthynas â'r bidiau i'w cyflwyno i'r Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **I ystyried y rhestr o fidiau refeniw a chyfalaf** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd Tomos Evans** |

## 1. Cefndir

Pwrpas y papur hwn yw adrodd ar ganlyniad y broses o ddadansoddi a blaenoriaethu bidiau refeniw a chyfalaf fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2008/09.

Yn unol â'r fframwaith cynllunio busnes mae'r bidiau wedi eu hadnabod gan y gwasanaethau wrth iddynt ystyried eu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 2008/09 – 2010/11.

Eleni, yn wyneb y sefyllfa ariannol ddychrynllyd o heriol, gwahoddwyd bidiau o dan y categori Anorfod yn unig, sef gwariant anorfod i gadw gwasanaeth ar ei lefel bresennol ac ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd sylweddol.

'Roedd cyfanswm y bidiau gwreiddiol a dderbyniwyd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Bidiau Cyfalaf | £33,916,000 |
| Bidiau Refeniw | £9,014,175 |

## 2. Y Broses Blaenoriaethu

Er mwyn cynorthwyo'r aelodau gyda'r dasg o flaenoriaethu'r bidiau, mae'r broses eleni wedi cynnwys y prif gamau canlynol:-

- asesiad agoriadol o'r holl fidiau a gyflwynwyd, gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, er sicrhau mai dim ond bidiau anorfod oedd yn cael ystyriaeth

- yr Uned Polisi a Pherfformiad Corfforaethol, yn seiliedig ar y manylion a gyflwynwyd a thrafodaethau pellach gyda'r gwasanaethau, wedi paratoi argymhellion ac adroddiad drafft o ran blaenoriaethu a chyllido'r bidiau. Matrics risg wedi ei ddefnyddio ar gyfer y blaenoriaethu, i asesu'r cyswllt rhwng pa mor angenrheidiol yw i ymateb i risg a'r effaith yng nghyd destun cyfrifoldebau a blaenoriaethau'r Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

- y Tim Rheoli Corfforaethol / Bwrdd Rheoli Adnoddau wedi ystyried yr adroddiad blaenoriaethu drafft yng nghyd destun y strategaeth ariannol ac wedi cytuno argymhellion parthed blaenoriaethau a ffynhonnell cyllido ar gyfer 2008/09.

- argymhellion y Tim Rheoli Corfforaethol / Bwrdd Rheoli Adnoddau wedi eu hystyried gan yr Arweinyddion Gwleidyddol.

O ran y bidiau cyfalaf, penderfynodd y Tîm Rheoli, yng nghyd-destun yr angen i sicrhau bod unrhyw ymrwymiad yn gyson â'r weledigaeth hirdymor ar gyfer gwariant cyfalaf y Cyngor, osgoi ymrwymo adnoddau ar gyfer 2009/10 a 2010/11 oni bai ei bod yn hollol anorfod. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Mae gweddill yr adroddiad yn cyflwyno'r argymhellion a'r wybodaeth cefndirol fel a ganlyn:-

**A. Bidiau Refeniw.**

Mae'r dogfennau canlynol ynghlwm:

(i) yr argymhellion parthed cyllido'r bidiau – **Atodiad A**

I grynhoi, mae'r cyfansymiau fel a ganlyn:

| | **2008/09** |
|---|---|
| **Parhaol** | £1,856,460 |
| **Unwaith ac am Byth** | £2,150,080 |
| **Ffynnhonell Arall*** | £1,367,061 |

*Ffynnhonell Arall yn cynnwys Grant, cyllideb y Gwasanaeth, incwm ychwanegol a.y.y.b.

**B. Bidiau Cyfalaf.**

Mae'r dogfennau canlynol ynghlwm:

(i) Rhestr o'r ymrwymiadau a wnaed eisoes ar gyfer y cyfnod dan sylw, a'r bidiau a dderbyniwyd – **Atodiad B**

(ii) Argymhellion parthed cyllido'r bidiau, yn dilyn herio gan y Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad – **Atodiad B**

I grynhoi, mae’r cyfansymiau fel a ganlyn mewn perthynas ag elfen bidiau y rhaglen gyfalaf.

| | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** |
|---|---|---|---|
| **Ymrwymiadau** | £7,902,200 | £4,680,000 | £0 |
| **Swm a argymhellir** | £3,376,800 | £2,742,500 | £7,950,000 |
| **Cyfanswm** | **£11,279,000** | **£7,422,500** | **£7,950,000** |

**3. Argymhelliad.**

**Gofynnir i’r Pwyllgor gymeradwyo’r argymhellion mewn perthynas â’r bidiau refeniw a chyfalaf i’w cyflwyno i’r Cyngor ar 1af o Fawrth.**

**A. Barn yr Aelod Lleol:-**

---

**B. Barn y Swyddogion Statudol:-**

**1. Prif Weithredwr:-**

"Ar yr adeg hwn o ganfod arbedion, mae'n rhaid cofio bod pwysau newydd yn dod ar wasanaethau ac asedau a mae'n allweddol bod y Cyngor yn effro i'r pwysau hynny gan fod yn fodlon arbed mewn llefydd eraill er mwyn cyfarfod a gofynion newydd o bwys. Mae'r cynigion sydd gerbron ar gyfer bidiau wedi eu herio'n drylwyr a wedi derbyn cymeradwyaeth y Tim Rheoli Corfforaethol."

**2. Swyddog Monitro:-**

Ar ôl nodi yr holl brosesau blaenoriaethu a'r ffaith bod matrics risg yn ei lle, nid oes unrhyw sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**3. Prif Swyddog Cyllid:-**

"Cadarnhaf fod cyfansymiau'r bidiau refeniw a chyfalaf a argymhellir yma yn gyson efo'r strategaeth ariannol ar gyfer 2008/09 yn adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau, ac yn sail i ddangosyddion y Côd Darbodus mewn adroddiad canlynol. Mae'r bidiau wedi'u blaenoriaethu yn rhesymegol mewn modd ystyrlon, sydd wedi mesur ac ystyried amrediad eang o anghenion, felly rwy'n cefnogi'r argymhellion ar gyfer 2008/09.

Yn groes i'r arfer eleni, mae'r Gyfadran Gofal wedi "netio" gwarged incwm o'u "bidiau" ar gyfer 2008/09 ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Golygai hynny fod rhai o'r "bidiau" yn ymddangos yn llai nac y maent mewn gwirionedd, gan fyddai'r gwarged incwm wedi cael ei gynhaeafu "i'r canol" yn y broses gyllidebu arferol, a'r "bidiau" wedi'u cyflwyno ar sail "gros". Mae hyn wedi arwain at ddiffyg eglurder wrth ymdrin â'r "bidiau", felly rhoddwyd gorchymyn clir i'r holl swyddogion perthnasol fod "netio" incwm o "bidiau" ddim i ddigwydd eto.
Fodd bynnag, mae'r broses o flaenoriaethu "bidiau" 2008/09 wedi mynd ymlaen i'r pen draw ar sail y ffigyrau sy'n Atodiad A i'r adroddiad cysylltiedig ynglŷn â'r "bidiau refeniw" eleni. O ganlyniad, os derbynnir yr argymhellion gerbron, bydd y Bwrdd "de facto" yn cymeradwyo rhai trosglwyddiadau cyllidebol parhaol i weithredu "netio" gwarged incwm Gwasanaethau Cymdeithasol o'u "bidiau". Felly, er eglurder, ac er mwyn sicrhau trefn swyddogol ar gyllideb2008/09, gofynnaf i'r Bwrdd benderfynu yn ffurfiol (trwy gymeradwyo adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad) hefyd i gymeradwyo'r trosglwyddiadau canlynol sydd ymhlyg yn yr adroddiad:

- Ni wnaed "bid" i gyllido tueddiad gwariant cynyddol Pobl Hyn, gan fod y Gyfadran Gofal wedi rhagdybio y byddai'r incwm yn ddigonol i ariannu'r gorwariant, felly rhaid trosglwyddo £400,000 o incwm sy'n deillio o

gyfraniadau at wasanaeth Preswyl a Nyrsio i ariannu gwariant yn y maes Pobl Hyn (cynnydd mewn ‘targed incwm i’w gasglu’ yn ariannu cynnydd cyfatebol mewn gwariant, gydag effaith “niwtral” ar gyllideb y Gwasanaeth cyfan).

- Cyflwynwyd “bid net” (£117,000) ar gyfer Gwasanaeth Anableddau Corfforol (“bid” GOF23 sy’n Atodiad A i’r adroddiad cysylltiedig ynglŷn â’r “bidiau refeniw”), a hefyd cyflwynwyd “bid net” (£120,000) ar gyfer Gwasanaeth Anableddau Dysgu (“bid” GOF24 yn Atodiad A), felly yn yr un modd rhaid trosglwyddo £260,000 o incwm sy’n deillio o’r Polisi Codi Tal am wasanaethau dibreswyl i ariannu tueddiadau gwariant cynyddol ym meysydd Anabledd Corff (£121,000) ac Anabledd Dysgu (£139,000).

Bydd modd tacluso materion eraill yn y broses gyllidebu arferol, ond rhaid sicrhau cymeradwyaeth y Bwrdd i’r trosglwyddiadau parhaol uchod (sydd dros y trothwy £60,000).

---

**C. Papurau Cefndir**

---

**CH. Goblygiadau Polisi**